# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Sefydliadau Ewropeaidd a Gwarchodaeth Gonsylaidd (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **27 Tachwedd 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau Sefydliadau Ewropeaidd a Gwarchodaeth Gonsylaidd (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018**

**Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio**
Diddymu ac arbedion yn achos hawliau cytuniad perthnasol sy'n uniongyrchol effeithiol, a ddargedwir o dan adran 4(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Cyngor y Gymuned Economaidd Ewropeaidd: Rheoliad Rhif 1 yn pennu'r ieithoedd sydd i'w defnyddio gan y Gymuned Economaidd Ewropeaidd.

Cyfeiriadau yng nghyfraith yr UE a ddargedwir at ieithoedd swyddogol ac ieithoedd gwaith y Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd.

Rheoliad (EEC, Euratom) Rhif 1182/71 y Cyngor, 3 Mehefin 1971, yn pennu'r rheolau sy'n gymwys i gyfnodau, dyddiadau a therfynau amser.

Dirymu amrywiol ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, fel y nodir yn yr Atodlen.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Ni fydd yr OS hwn yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad nac ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Diben y diwygiadau**
Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â gweithrediad sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-european-institutions-and-consular-protection-amendment-etc-eu-exit-regulations-2018

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru, ac ar ei rhan, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn ac nid oes gwahaniaeth o ran y polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau'n weithredol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd ym mis Mai.